**Galluogi system hunanwella – model cydweithredol rhwng ysgolion, ALlau a Llywodraeth Cymru – Canllawiau drafft (Mehefin 2024)**

Ysgrifennwyd y ddogfen hon er mwyn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol (“ALl”) ac arweinwyr ysgolion ar y trefniadau ar gyfer gwella ysgolion ar ôl cyhoeddi'r adroddiad ar yr ‘Adolygiad o rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru a chyflwyno trefniadau i wella ysgolion’. Dogfen ddrafft ydyw, er mwyn hwyluso trafodaethau ag awdurdodau lleol wrth i ni symud tuag at 2025/26. Byddwn yn derbyn sylwadau ar y ddogfen ac yn rhannu fersiwn wedi'i diweddaru ym mis Medi 2024.

Mae'r ddogfen hon yn nodi canllawiau pellach ar ddisgwyliadau dwy ffrwd waith gyntaf yr adroddiad:

- Cefnogi gwaith rhwng ysgolion ar lefel leol
- Cefnogi cydweithio a rhwydweithio rhwng ysgolion ar draws awdurdodau lleol

Cyhoeddir rhagor o fanylion erbyn mis Medi ar rôl capasiti cenedlaethol wrth gefnogi'r agenda hon (sef y drydedd ffrwd waith a gynigiwyd gan yr adolygiad).

**Mae'r canllawiau drafft hyn yn nodi'r canlynol:**

- Pwysigrwydd cynyddol *gwelliant cydweithredol* a *chydgyfrifoldeb* o ran gwella safonau.
- Dull gweithredu newydd mewn perthynas â hunanwerthuso a gwella yn seiliedig ar yr egwyddorion uchod ac wedi'i lywio gan reolaeth broffesiynol a phrosesau cydweithio effeithiol.
- Rolau a chyfrifoldebau/disgwyliadau i ysgolion ac ALlau

Caiff y ddogfen ei hategu gan dempled (Dogfen 1) y bwriedir iddo helpu ALlau i gynllunio ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd ar gyfer helpu ysgolion i wella. Mae'r templed yn cynnwys cyfres o gwestiynau i ALlau eu hystyried. Rydym yn cydnabod y bydd awdurdodau lleol ac ysgolion yn dechrau o wahanol fannau cychwyn a bod angen gweithredu fesul cam mewn ffordd wahaniaethol wrth i ni anelu at gyflawni uchelgeisiau'r canllawiau hyn. Bydd y templed atodedig yn galluogi awdurdodau lleol i nodi eu taith unigol nhw. Bydd y templed hwn yn gweithredu fel sail ar gyfer trafodaethau anffurfiol rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac ALlau ganol mis Gorffennaf. Mae'r tabl yn nodi'r camau nesaf:

| **Dyddiad** | **Allbwn** | **Arweinydd** |
|---|---|---|
| Mehefin | Dosbarthu'r canllawiau drafft – *Model cydweithredol rhwng ysgolion, ALlau a'r llywodraeth genedlaethol.* | Llywodraeth Cymru |
| Gorffennaf | Trafodaethau anffurfiol â phob ALl yn seiliedig ar y templed sy'n ategu'r canllawiau hyn – ar gael yn Nogfen 1<br>**Dylid anfon unrhyw sylwadau ar y canllawiau eu hunain i'w derbyn erbyn diwedd mis Gorffennaf 2024** | Llywodraeth Cymru a'r tîm partner |
| Medi | Cyhoeddi rhagor o fanylion am swyddogaethau capasiti cenedlaethol* | Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | Canllawiau a thempled wedi'u diweddaru yn seiliedig ar adborth | |
| Diwedd mis Hydref | Cyflwyno cynlluniau terfynol ALlau yn seiliedig ar y templed | ALlau |
| Diwedd 2024 | Ymgynghoriad ar y canllawiau Gwella Ysgolion diwygiedig a fydd yn adeiladu ar ganlyniadau'r broses SIPP hon | Llywodraeth Cymru |

**Bydd y manylion a nodir yn y canllawiau am gapasiti cenedlaethol yn effeithio ar ALlau i ryw raddau o ran cwmpas a natur cymorth a swyddogaethau cenedlaethol mewn meysydd allweddol. Fodd bynnag, nid yw'r manylion hyn yn debygol o effeithio ar gynnwys y ddogfen hon, a bydd ein gweledigaeth a'n gofynion craidd yn parhau.*

## 1 Cyd-destun

Mae cyhoeddiadau diweddar, gan gynnwys adroddiadau Estyn, PISA a'r adroddiad cenedlaethol personol ar yr asesiadau, wedi nodi **bod angen gwella ansawdd dysgu a deilliannau o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion, a'u cysondeb ledled Cymru i BOB dysgwr.** Mae angen i ni ddod â'n gwaith ar ADY a'r cwricwlwm ynghyd, wedi'i ategu gan ein hymrwymiad i sicrhau tegwch i bob dysgwr wrth i ni ddod at ein gilydd er mwyn cyflawni cenhadaeth ein cenedl i gyrraedd safonau uchel a chyflawni dyheadau uchel i bawb drwy fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a chefnogi pob dysgwr.

Canolbwyntiodd yr 'Adolygiad Gwella Ysgolion: rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru' ('yr Adolygiad') ar y meysydd allweddol roedd angen eu newid er mwyn gallu cyflawni'r gwelliant hwn.

Nododd yr Adolygiad fod arweinwyr ysgolion yn teimlo wedi'u llethu gan yr holl newid yn y system addysg yng Nghymru a oedd, yn eu barn nhw, yn cael ei waethygu gan ddiffyg eglurder ynghylch y diwygiadau cenedlaethol mewn rhai meysydd allweddol fel y cwricwlwm ac ADY. Roeddent o'r farn bod llawer o'r ceisiadau gan yr haen ganol yn ddiangen, yn wrthgynhyrchiol ac yn ychwanegu biwrocratiaeth. O ganlyniad, roeddent am gael eglurder ynghylch rolau ac effaith pob elfen a oedd yn gysylltiedig â'r haen ganol.

Mae arweinwyr ysgolion yn teimlo diffyg perchnogaeth dros agenda gwella eu hysgol, fel yr adlewyrchir yng nghasgliadau'r Adolygiad:

*'roedd llawer o bryder ynghylch y diwylliant o 'gwneud i' yn hytrach na 'gwneud gyda'. Nodwyd y pryderon ynghylch yr amrywiaeth a'r diffyg cysondeb yn ansawdd y cymorth...yn aml hefyd. Roeddent o'r farn bod llawer o'r ceisiadau gan yr haen ganol yn ddiangen, yn wrthgynhyrchiol ac yn ychwanegu biwrocratiaeth'.*

Roedd yr Adolygiad yn cynnig mai arweinwyr ysgolion ddylai fod yn gyfrifol am reoli gwelliannau dysgu, er mwyn iddynt deimlo eu bod wedi'u grymuso fwy a bod ganddynt fwy o reolaeth dros daith wella eu hysgol.

Gan fyfyrio ar gryfder a chysondeb safbwyntiau, awgrymodd yr Adolygiad y dylai'r seilwaith ar gyfer gwella ysgolion yn y dyfodol wneud y canlynol:

- cynnig cyfle i arweinwyr ysgolion arwain ar faterion gwella ysgolion drwy gael mwy o ffocws ar gydweithio'n lleol a gwaith partneriaeth rhwng arweinwyr ysgolion a'u ALl
- datblygu partneriaethau rhwng mwy nag un ALl
- sefydlu arweinyddiaeth genedlaethol gryfach â blaenoriaethau cenedlaethol cliriach i ysgolion a symleiddio'r mecanweithiau cyllido cenedlaethol gan ddyrannu cymaint o adnoddau â phosibl yn uniongyrchol i ysgolion neu gefnogi grwpiau o ysgolion i gydweithio.

## 2. Nodau ac Amcanion

Nod y polisi hwn yw cefnogi'r system drwy fwrw ati ar y cyd i wella safonau addysgol yng Nghymru wrth i ni aeddfedu'n system hunanwella.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi disgwyliadau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer dull cydweithredol newydd rhwng ysgolion mewn perthynas â hunanwerthuso a gwella: dylid nodi y dylai'r dull hwn fod yn seiliedig ar ddiwylliant agored, lle ceir ymdeimlad o gydgyfrifoldeb rhwng ALlau, ysgolion a grwpiau o ysgolion. Mae model Ysgolion yng Nghymru fel sefydliadau sy'n dysgu yn nodi'r nodweddion allweddol ar gyfer rhoi'r diwylliant hwn ar waith.

Mae'r polisi yn anelu at wneud y canlynol:

i. Gwella ansawdd arweinyddiaeth ac addysgu a dysgu drwy ymgorffori a galluogi gwelliant cydweithredol a chydgyfrifoldeb dwfn a phwrpasol fel sylfeini'r model gwella ysgolion.
ii. Datblygu diwylliant agored a chefnogol sy'n golygu y gellir defnyddio prosesau hunanwerthuso fel dull o wella ysgolion a'r system ysgolion ehangach, yn hytrach na fel ymarfer cydymffurfio o fewn system atebolrwydd.
iii. Galluogi ALlau i greu seilwaith gwella cydweithredol lleol sy'n galluogi pob ysgol ac ALl i wneud y canlynol
    a. gwella ansawdd prosesau hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion, gan sicrhau bod trefniadau cydweithredol o ansawdd uchel, cyfleoedd dysgu ac ymholi proffesiynol gweithredol, a chymorth a her effeithiol gan gymheiriaid yn chwarae rhan ganolog.
    b. parhau i feithrin dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a disgwyliadau ar gyfer dysgu.
    c. datblygu cyd-ddealltwriaeth fwy dilys o flaenoriaethau lleol.
iv. Galluogi arweinwyr ysgolion ac ALlau i ddefnyddio eu hamser a'u hegni i feithrin a gwireddu gallu yn yr ysgol i helpu i wella systemau lleol.
v. Galluogi ALlau i weithio mewn partneriaeth â'i gilydd a gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y caiff arferion da sy'n seiliedig ar dystiolaeth eu rhannu mewn ffordd systematig.
vi. Darparu seilwaith cenedlaethol cefnogol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am welliannau lleol yn llywio blaenoriaethau cenedlaethol.

## 3. Ein model gwella ysgolion: dull cydweithredol newydd rhwng ysgolion mewn perthynas â hunanwerthuso a gwella

Ein nod yw sicrhau bod pob rhan o'r system ysgolion yn ystyried prosesau hunanwerthuso fel dull o wella ysgolion unigol a'r system ysgolion ehangach. Y diben yw gwneud yn siŵr bod gweithgarwch gwella yn canolbwyntio ar y pethau a gaiff yr effaith fwyaf ar ein dysgwyr.

Crynodeb o'n model:

- Fel y man cychwyn, dylai ysgolion arwain eu prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant eu hunain mewn ffordd iteraidd (yn hytrach nag fel digwyddiad untro); dylai'r awdurdod lleol ac ysgolion eraill gefnogi'r broses hon.
- Bydd pob ysgol yn rhan o fodel gwelliant cydweithredol fertigol (3-16 a thu hwnt) a model gwelliant cydweithredol llorweddol (e.e. uwchradd i uwchradd). Ceir rhagor o fanylion isod. Bydd hyn yn galluogi arweinwyr ac athrawon i brofi dysgu ac arwain mewn ysgolion eraill – gan gefnogi cyd-ddealltwriaeth o'r disgwyliadau ar gyfer dysgu a chynnydd a galluogi i flaenoriaethau gwella manwl tymor hir gael eu nodi a'u trafod.
- Bydd ALlau, mewn partneriaeth ag arweinwyr ysgolion, yn hwyluso ac yn rhoi cymorth i bob partneriaeth gydweithredol, gan nodi a manteisio ar arbenigedd a thystiolaeth, ynghyd â gwasanaethau ehangach yr ALl, wrth iddynt fwrw ati gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r rhwystrau i ddysgu cyn gynted â phosibl.
- Mae ALlau yn gweithio gydag ALlau eraill a'r capasiti gwella ysgolion cenedlaethol i sicrhau dulliau gwella sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym mhob rhan o'r system, gan alluogi ymdrech fwy cydlynus tuag at gyflawni cenhadaeth ein cenedl.

### 3.1 Rôl yr ysgol unigol

Bydd arweinwyr ysgolion a'u cyrff llywodraethu yn parhau'n atebol am wella'r dysgu yn eu hysgol benodol. Dylai fod gan bob ysgol drefniadau hunanwerthuso gonest a chadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar waith, gan adeiladu ar yr amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth sydd ar gael, fel rhan o'i phroses wella strategol.

Bydd ysgolion yn canolbwyntio ar ddau gwestiwn allweddol fel man cychwyn ar gyfer eu gweithgareddau gwella:

1. A yw dysgwyr yn gwneud cynnydd yn y ffyrdd a ddisgrifiwyd yn yr egwyddorion cynnydd, gan eu cefnogi i ddatblygu tuag at y pedwar diben?
2. A yw cyflymder cynnydd dysgwyr yn unol â disgwyliadau athrawon a'r cwricwlwm?

Bydd angen amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth i lywio gwerthusiad ysgol mewn perthynas â'r cwestiynau hyn, ond ni ddylai unrhyw ysgol fwrw ati i ateb y cwestiynau hyn ar ei phen ei hun. Wrth ddatblygu eu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd a'r disgwyliadau ar gyfer dysgu, dylai ysgolion sicrhau bod digon o gymorth a her ar gael i ymarferwyr o fewn eu hysgol benodol a thu hwnt iddi. Gall bwrw ati i roi proses hunanwerthuso sy'n seiliedig ar ymholi ar waith o fewn trefniant cydweithredol dwfn a

phwrpasol ag ysgolion eraill roi cyfleoedd i arweinwyr ac ymarferwr feithrin dealltwriaeth wirioneddol o'r canlynol:

- *Pa mor dda rydym yn ei wneud?*
- *Sut rydym yn gwybod?*
- *Sut y gallwn wella?*

## 3.2 Gwelliant cydweithredol

Dylid ystyried **gwelliant cydweithredol** fel y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau newid cynaliadwy o fewn ysgolion, ar draws grwpiau o ysgolion, ac ar draws awdurdodau lleol; **dylai hyn ganolbwyntio ar wella dysgu a deilliannau <u>pob</u> dysgwr.** Bydd y dull gweithredu hwn yn arwain at well **addysgu a dysgu, arweinyddiaeth, a thegwch, cynhwysiant a llesiant** drwy feithrin capasiti ar y cyd a chyd-ddealltwriaeth o fewn y system leol.

Er mwyn cyflawni hyn, dylai arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr weithio mewn partneriaeth â'i gilydd a gyda'u ALI mewn amgylchedd agored, llawn ymddiriedaeth. Bydd hyn yn galluogi cyfleoedd dysgu proffesiynol gweithredol, gan sicrhau y caiff tystiolaeth uniongyrchol o ddysgu ac arweinyddiaeth ei gweld a'i rhannu, wedi'i hategu gan drafodaeth broffesiynol fanwl.

Rydym yn disgwyl i hyn greu diwylliant cydweithredol a fydd yn golygu y gellir nodi blaenoriaethu gwella manwl ac y gellir rhannu arbenigedd, sgiliau a chapasiti, gan sicrhau gwelliannau cynaliadwy tymor hir. (Gweler Atodiad 1).

**Rydym yn diffinio gwelliant cydweithredol gan gyfeirio at ddau ddimensiwn:**

**3.2.1 "Cydweithio Fertigol"** – dylai ysgolion gydweithio yn eu hardal leol er mwyn sicrhau y gall pob dysgwr wneud cynnydd ar hyd y continwwm 3-16 a thu hwnt.

Dylai ysgolion ac ALlau ystyried cyfleoedd ar gyfer datrysiadau ar y cyd er mwyn mynd i'r afael â materion lleol. Dylid rhoi strategaethau ymyrryd tymor hir ar waith i ymdrin â'r heriau 3-16 lleol hynny, gan fynd i'r afael â rhwystrau at ddysgu cyn gynted â phosibl (gan gynnwys anfantais, ADY, ymddygiad a phresenoldeb).

Mae cydweithio fertigol hefyd yn hanfodol wrth sicrhau cwricwlwm cynhwysol a chydlynol ac wrth hwyluso cynnydd i bob dysgwr, yn enwedig ar adegau pontio allweddol. Bydd meithrin dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a disgwyliadau ar gyfer dysgu ar hyd y continwwm 3-16 yn rhan ganolog o'r broses hon.

**3.2.2** "**Cydweithio Llorweddol**" – Dylai ysgolion weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion y mae eu dysgwyr yn perthyn i'r un ystod oedran, i ddatblygu prosesau cydweithredol ar gyfer gwerthuso a chynllunio gwelliannau (er enghraifft, ysgol uwchradd yn gweithio gydag ysgolion uwchradd eraill). Yn wreiddiol i'r math hwn o welliant cydweithredol, mae meithrin dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a disgwyliadau ar gyfer dysgu yn sail i hunanwerthuso effeithiol ac yn galluogi i flaenoriaethau gwella manwl gael eu nodi a'u rhoi ar waith. (Nodwch y gall fod angen i ddulliau cydweithio llorweddol weithredu ar draws ALlau er mwyn galluogi lleoliadau tebyg i weithio o fewn yr un sector e.e. cyfrwng Cymraeg, ffydd, arbennig, Uned Cyfeirio Disgyblion/Addysg Heblaw yn yr Ysgol).

### 3.2.3 Disgwyliadau ar gyfer gwelliant cydweithredol dwfn a phwrpasol

Bydd angen i ysgolion ac ALlau greu diwylliant agored o ymholi, arloesi ac archwilio cydweithredol, er mwyn meithrin dealltwriaeth yn seiliedig ar dystiolaeth o flaenoriaethau gwella, gan sicrhau bod y blaenoriaethau hynny yn ddigon manwl a phenodol. Er mwyn galluogi hyn, byddem yn disgwyl i bartneriaethau ysgol cydweithredol, o fewn amgylchedd cefnogol llawn ymddiriedaeth, wneud y canlynol:

- Rhannu gwybodaeth a thystiolaeth gydag eraill sy'n berthnasol i'w taith gwella unigol.
- Hwyluso a chymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol gweithredol lle gall arweinwyr ac ymarferwyr o ysgolion eraill, ar y cyd â'r ALl, gynnig cymorth a her effeithiol a chilyddol.

Bydd hyn yn arwain at brosesau triongli effeithiol drwy alluogi trafodaethau proffesiynol pwrpasol yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol o ddysgu ac arwain yn ogystal ag amrywiaeth ehangach o dystiolaeth a gwybodaeth. Bydd yr uchod hefyd yn galluogi'r ALl i ddeall y rhwystrau i ddysgu er mwyn i wasanaethau ehangach yr awdurdod allu helpu ysgolion i fynd i'r afael â'r rhwystrau hynny.

### 3.3 Cydgyfrifoldeb

Er mwyn galluogi gwelliant cydweithredol effeithiol, dylid sicrhau bod y system yn seiliedig ar y cysyniad o ***gydgyfrifoldeb***. Ar lefel leol, dylai'r ALl ac ysgolion fwrw ati ar y cyd i wneud gwelliannau lleol. Dylai pob ysgol weithredu er lles pennaf pob dysgwr ar hyd y continwwm 3-16 (a thu hwnt).

Er y bydd arweinwyr ysgolion a'u cyrff llywodraethu yn parhau'n atebol am wella'r dysgu yn eu hysgol benodol, dylent hefyd deimlo cydgyfrifoldeb dros wella'r dysgu mewn ysgolion/lleoliadau eraill. Dylai'r ALl weithio mewn partneriaeth ag arweinwyr ysgolion i feithrin capasiti, sgiliau ac arbenigedd ar draws ysgolion o fewn diwylliant lle mae'r system leol gyfan yn ymrwymedig i'r nod gyffredin o wella safonau a gwella profiad addysgol pob dysgwr.

Dylai ALlau gymhwyso'r un egwyddor ar draws ffiniau'r ALl wrth weithio gydag ALlau eraill. Dylai'r partneriaethau hyn fod yn seiliedig ar y cysyniad o gydgyfrifoldeb a dylent anelu at wella safonau, darpariaeth a phrofiad pob dysgwr yng Nghymru.

### 3.3.1 Cymuned Gwella Lleol

Mewn partneriaeth ag arweinwyr ysgolion/arweinwyr y system leol, dylai ALlau gynllunio a gweithredu eu strategaethau ar gyfer gwella yn unol ag anghenion y system leol a chymunedau lleol. Dylai ymdrechion i weithio'n strategol gydag arweinwyr ysgolion o amgylch blaenoriaethau allweddol, sydd wedi'u hanelu at wella'r dysgu, hwyluso cyfleoedd i feithrin a rhannu capasiti lleol.

Dylai'r broses hon hefyd alluogi ALlau i feithrin dealltwriaeth glir o ran ble y gallai fod angen cymorth a chapasiti ychwanegol arnynt. Bydd hefyd yn helpu ALlau i nodi meysydd o gryfder i'w rhannu ag eraill ac i atgyfnerthu ac ystyried blaenoriaethau

gwella lleol fel rhan o'u prosesau hunanwerthuso eu hunain. *Gweler Atodiad 2 am enghraifft ddangosol.*

**4. Beth yw buddiannau'r model hwn?**

**I'r dysgwr:**

Dylai model cydweithredol sicrhau gwell tegwch i'n dysgwyr drwy wireddu *cydgyfrifoldeb*; system sy'n gwerthfawrogi cyfraniad unigryw pob dysgwr ar ei daith 3-16. Bydd diwylliant o ddysgu a gwella, lle mae pawb yn rhannu disgwyliadau uchel ohonynt eu hunain ac eraill, yn ein helpu i ddatblygu pobl ifanc sy'n fwy parod ar gyfer eu camau nesaf ar ôl addysg orfodol. Dylai dysgwyr brofi cyfnod pontio llyfn ar hyd y continwwm 3-16 a thu hwnt sy'n teimlo'n gynhwysol ac yn gefnogol; drwy system sy'n seiliedig ar gydweithio dwfn a phwrpasol y gwneir hyn orau. Bydd y dull cydweithredol hwn, yn seiliedig ar yr egwyddor o gydgyfrifoldeb, hefyd yn ein helpu i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar ddysgwyr, eu teuluoedd, a'u cymunedau ehangach.

**I'r ysgol:**

Mae model cydweithredol yn cynnig nifer o fuddiannau sy'n cyfrannu at welliant addysgol a thwf proffesiynol; mae'n gwella ymarfer addysgu drwy gyfoethogi dysgu a thrafodaeth broffesiynol. Mae hyn yn arwain at rannu gwybodaeth, dulliau addysgu arloesol a chyfleoedd i gyfnewid arferion gorau. Gall cydweithio efffeithiol cefnogi diwylliant sy'n fwy seiliedig ar ymholi o fewn ysgolion a rhyngddynt. Gall trefniadau cydweithredol hefyd gynnwys cyfleoedd i rannu capasiti arweinyddiaeth er mwyn i ysgolion ddatblygu dulliau meddwl yn strategol, dulliau cynllunio ac i rannu arbenigedd. Rhoddir mwy o reolaeth i weithwyr proffesiynol ar bob lefel yn y system.

**I'r awdurdod lleol:**

Yn y model gwella cydweithredol newydd arfaethedig, bydd gan ALlau dystiolaeth uniongyrchol o'r prosesau dysgu ac arwain ym mhob ysgol ac ar draws ysgolion, drwy fod yn rhan o’r cydweithio sy’n digwydd rhwng ysgolion. Byddant yn meithrin dealltwriaeth fanwl ar y cyd o anghenion gwella lleol a byddant yn gallu datblygu dull gweithredu mwy gwybodus er mwyn llunio strategaethau gwella, cymorth rhwng ysgolion a chyfleoedd dysgu proffesiynol.

Drwy feithrin capasiti ar y cyd, bydd ALlau yn gallu cefnogi gwelliant a threfniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth drwy annog ysgolion i rannu ag eraill a dysgu gan eraill.

Rydym yn disgwyl y bydd y model gwelliant cydweithredol yn galluogi ALlau ac arweinwyr ysgolion i ddatblygu eu perchnogaeth a'u cydgyfrifoldeb eu hunain dros wella ac i gyflwyno'r newid mewn diwylliant rydym yn anelu ato.

### 5. Datblygu system gwella ysgolion leol – rolau a chyfrifoldebau ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaethau

Ein nod cyffredinol yw gwireddu system hunanwella drwy gyflwyno newid sylfaenol mewn diwylliant er mwyn sicrhau bod **arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr** yn teimlo eu bod wedi'u grymuso a bod ganddynt fwy o reolaeth dros eu gwelliant.

#### 5.1 Rydym yn disgwyl i benaethiaid a chyrff llywodraethu pob ysgol wneud y canlynol:

- Datblygu gweledigaeth a rennir o ran sut y dylai'r ysgol wella yn unol â'r Fframwaith Gwella Cenedlaethol (Atodiad 3) – gan sicrhau bod gwelliant cydweithredol a chydgyfrifoldeb wrth wraidd y weledigaeth honno. Dylai'r staff, rhanddeiliaid ac ysgolion lleol feddu ar ddealltwriaeth dda o'r weledigaeth hon a'i rhannu.
- Datblygu diwylliant dysgu agored a chefnogol mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol – gan adeiladu ar y Safonau Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a model Ysgolion yng Nghymru fel sefydliadau sy'n dysgu .
- Sicrhau diwylliant o ddisgwyliadau uchel, o fewn dealltwriaeth gyffredin o ddisgwyliadau ar gyfer dysgu, y mae pob aelod o staff a rhanddeiliaid yn eu deall yn dda.
- Creu diwylliant agored o ymholi, arloesi ac archwilio, mewn partneriaeth ag ysgolion eraill, er mwyn meithrin dealltwriaeth yn seiliedig ar dystiolaeth o flaenoriaethau gwella eu hysgol, gan sicrhau bod y blaenoriaethau hynny yn ddigon manwl a phenodol.
- Drwy gydweithio fertigol a llorweddol, ac mewn partneriaeth â'r ALl, dangos arweiniad gweithredol wrth roi a derbyn cymorth er mwyn ymdrin â'r blaenoriaethau gwella manwl, gan rannu arbenigedd, sgiliau a chapasiti mewn ffordd strwythuredig.
- Cydweithio ag ysgolion eraill i sicrhau eu bod yn bwrw ati mewn ffordd effeithiol i werthuso effaith strategaethau gwella ar ddeilliannau disgyblion – gan ddarparu'r capasiti angenrheidiol i'w cefnogi, a sicrhau na chaiff unrhyw grwpiau o ddysgwyr eu gadael ar ôl.

Noder:

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol cenedlaethol er mwyn helpu'r rhai hynny sy'n gysylltiedig â gwella ysgolion (arweinwyr ysgolion a staff ALlau) i ddatblygu eu dull o weithredu fel cynghorwyr a hwyluswyr, yn unol â'r model hwn o welliant cydweithredol â chymorth. Ar ôl eu creu, rhagwelir y dylai'r canlynol ymgymryd â'r cyfleoedd dysgu proffesiynol hyn:

- pob aelod o staff ALlau sy'n ymwneud â helpu ysgolion i hunanwerthuso a gwella;
- o leiaf un aelod o'r uwch-dîm arwain ym mhob ysgol uwchradd;
- o leiaf un aelod o'r timau arwain ar draws y clwstwr / partneriaeth gydweithredol o ysgolion cynradd (arbennig/UCDau/Addysg Heblaw yn yr Ysgol)

**Dylai cyrff llywodraethu hefyd wneud y canlynol:**

- Galluogi eu harweinwyr a'u hymarferwyr i gefnogi gwelliant cydweithredol drwy gymryd rhan weithgar o fewn trefniadau cydweithredol a, lle y bo'n briodol, helpu arweinwyr ysgolion i weithredu fel arweinwyr system lleol.
- Ystyried eu trefniadau eu hunain ar gyfer gweithio gyda chyrff llywodraethu eraill er mwyn cefnogi cydgyfrifoldeb a gwelliant cydweithredol.

**5.2 Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol wneud y canlynol:**

- Cytuno ar weledigaeth ar y cyd ag arweinwyr ysgolion er mwyn gwella eu hysgolion yn unol â'r Fframwaith Gwella Cenedlaethol (Atodiad 3) – gan sicrhau bod gwelliant cydweithredol a chydgyfrifoldeb wrth wraidd y weledigaeth honno.

- Creu diwylliant o ddisgwyliadau uchel, lle ceir dealltwriaeth a rennir o ddisgwyliadau ar gyfer dysgu, y mae pob ysgol a rhanddeiliaid yn eu deall yn dda ac sy'n sicrhau y gall pob dysgwr wneud cynnydd.

- Grymuso mentrau cydweithredol rhwng ysgolion (fertigol a llorweddol) i ddatblygu diwylliant agored o ymholi, arloesi ac archwilio er mwyn gallu nodi blaenoriaethau gwella manwl.

- Bwrw ati i hyrwyddo a chefnogi twf arweinyddiaeth system leol drwy gynnig cyfleoedd i arweinwyr ysgolion, fel y bo'n briodol, arwain gwelliant cydweithredol a gweithio ar lefel strategol mewn partneriaeth ag ALlau.

- Meithrin arbenigedd mewn ysgolion er mwyn helpu i wella'r system leol fel y bo angen.

- Ystyried yn ofalus rôl barhaus Partneriaid Gwella neu Gynghorwyr Gwella Ysgolion, sy'n debygol o barhau i fod yn rôl hanfodol yn y system leol. Rydym

yn disgwyl i'w ffocws symud tuag at weithio gyda'r grwpiau cydweithredol (fertigol a llorweddol) drwy chwarae rhan fwy hwylusol a chefnogol wrth ddatblygu trefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau gwelliant cydweithredol rhwng ysgolion.

- Mewn partneriaeth ag arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr, meithrin dealltwriaeth ddilys a chynhwysfawr o flaenoriaethau gwella lleol er mwyn llywio blaenoriaethau lleol a chenedlaethol (Atodiad 1)

| |
|---|
| Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol o hyd am ddefnyddio eu pwerau ymyrryd statudol fel yr amlinellir yn y canllawiau Ysgolion sy'n Achosi Pryder<br><br>Dylai awdurdodau lleol barhau i ddefnyddio'r wybodaeth a'r adnoddau sydd ar gael iddynt er mwyn nodi ysgolion sy'n achosi pryder a rhoi unrhyw gymorth penodol iddynt. Yn yr achosion hyn, mae'n bosibl y bydd y Partner Gwella neu'r Cynghorydd Gwella Ysgolion yn chwarae rhan fwy uniongyrchol wrth drefnu neu roi cymorth uniongyrchol i ysgolion unigol. |

**6. Gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol**

Rydym yn disgwyl y bydd pob awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill i roi cymorth gwella ysgolion. Bydd awdurdodau lleol yn cytuno ar y partneriaethau hyn ar sail wirfoddol.

Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl gweld dau fath o bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol.

- Y math cyntaf fydd partneriaethau rhwng awdurdodau lleol a fydd yn dod ynghyd i ddarparu gwasanaethau cymorth i ysgolion er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Mae'n debygol mai'r brif ddadl o blaid darparu gwasanaethau yn y fath fodd fydd arbedion maint a'r gallu i fanteisio ar gronfa ehangach o sgiliau ac adnoddau mwy arbenigol. Bydd y partneriaethau hyn hefyd yn cynnig cyfleoedd i ysgolion gydweithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol a allai fod yn bwysig er mwyn diwallu anghenion eu darpariaeth a'u dysgwyr a'u cymunedau (e.e. cyfrwng Cymraeg, ffydd, ysgolion arbennig, UCD/Addysg Heblaw yn yr Ysgol). Mae'n bosibl y bydd y math hwn o waith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol hefyd yn bwysig wrth drefnu cymorth dysgu proffesiynol penodol i ysgolion neu wrth fanteisio ar y ddarpariaeth dysgu proffesiynol genedlaethol. Fel rhan o'r math hwn o waith partneriaeth gweithredol, mae'n bosibl y bydd modd rhannu staff hefyd er mwyn gwella capasiti a gwneud arbedion.

- Gallai'r ail fath o bartneriaethau rhwng awdurdodau lleol fod yn fwy penodol ac mae'n bosibl y bydd cyfyngiad amser penodol yn gysylltiedig â nhw. Mae'n bosibl y byddant wedi'u hanelu fwy at gyfleoedd i rannu gwersi a ddysgwyd, arbenigedd a chapasiti ysgolion ar draws awdurdodau lleol mewn perthynas â materion a phynciau allweddol.

**7. Rôl Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf o ran llywodraethu ac arolygu**

Fel y nodir yn yr adran ar amcanion ac a ddangosir yn Atodiad 1, dylai'r polisi alluogi Llywodraeth Cymru i gael mwy o wybodaeth am flaenoriaethau ysgolion a blaenoriaethau lleol a all lywio ein blaenoriaethau cenedlaethol a sicrhau gwell cysondeb.


Bydd gwelliant cydweithredol ar bob lefel o'r system yn arwain at well cydlyniant cenedlaethol ac yn y pen draw, yn cynnig gwell sylfaen ar gyfer gwella safonau addysgol er budd pob dysgwr.

Yn seiliedig ar y Fframwaith Gwella Cenedlaethol (atodiad 3), a chan ganolbwyntio ar wella arweinyddiaeth, addysgu a dysgu, a llesiant, cynhwysiant a thegwch, gall trafodaeth broffesiynol ddeuffordd gadarn ac effeithiol sicrhau bod blaenoriaethau gwella ***lleol*** yn gysylltiedig â'r broses o ddatblygu blaenoriaethau ***cenedlaethol*** o ran cymorth a dysgu proffesiynol.

Rydym yn cydnabod y gall strwythur unigoledig y system bresennol atal gwelliant cydweithredol a chydgyfrifoldeb. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried sut y bydd trefniadau llywodraethu yn cefnogi'r agenda hon yn y tymor hir, ac yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn hyn o beth. Byddwn hefyd yn gweithio gydag Estyn i ystyried goblygiadau'r canllawiau hyn ar gyfer ei fframwaith arolygu.


Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi rôl y capasiti cenedlaethol o ran cefnogi'r uchod ym mis Medi.

## Atodiad 1: Sut y gallwn sicrhau dealltwriaeth a rennir o'r blaenoriaethau?





## Atodiad 2: Sut y gallai trefniadau cydweithredol ddatblygu o fewn ALl?

*Enghraifft*




*Dylai **cydweithio llorweddol** alluogi ysgolion y mae eu dysgwyr o ystod oedran debyg i ystyried materion sy'n gysylltiedig â dysgu, arweinyddiaeth a llesiant gyda'i gilydd. Un o elfennau allweddol y gwaith gwelliant cydweithredol hwn fydd cynnig y cyfle i arweinwyr ac ymarferwyr weld tystiolaeth uniongyrchol y tu hwnt i'w sefydliad unigol. Ar y cyd, dylent ystyried eu disgwyliadau ar gyfer cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr, gan sicrhau cyfleoedd a heriau digonol ar draws ysgolion.*




*Dylai **cydweithio fertigol** alluogi ysgolion i weithio ar lefel leol. Byddant yn canolbwyntio ar flaenoriaethau lleol ac yn sicrhau cyfnod pontio effeithiol i bob dysgwr ar hyd y continwwm 3-16 a hyd at ôl-16. Dylai'r gwaith hwn arwain at ddealltwriaeth glir ymhlith ysgolion lleol o unrhyw rwystrau sy'n bodoli i ddysgwyr, y gallant fynd i'r afael â*

*Defnyddir y gair 'clwstwr' yma er hwylustod, er nad yw'n derm a ddefnyddir ym mhob rhan o Gymru.*

Atodiad 3:

***Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion***

